Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mr J Roberts
Ysgol Gynradd Parc Acton
Lôn y Bwth
Wrecsam
LL12 8BT

13/11/2024

Annwyl Mr J Roberts

**Ymweliad interim:** Hydref 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Parc Acton yn ddiweddar i ystyried cynnydd diweddar yr ysgol yn erbyn dau o'i blaenoriaethau gwella'i hun.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, edrych ar waith disgyblion a siarad â disgyblion, staff ac arweinwyr.

Ceir crynodeb o gynnydd isod.

**Ffocws yr ymweliad**

**Datblygu ymagweddau at addysgu rhifedd ymhellach, gan gynnwys datrys problemau mewn cyd-destunau bywyd go iawn**

- Mae uwch arweinwyr yn gosod disgwyliadau addas ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn raddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol.
- Mae athrawon yn dechrau darparu cyfleoedd gwerthchweil i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. At ei gilydd, mae disgyblion yn dechrau ymateb yn dda i'r profiadau hyn. Er enghraifft, maent yn defnyddio'u medrau yn bwrpasol wrth ragfynegi, cofnodi, cyflwyno a dadansoddi gwybodaeth am effeithiolrwydd parasiwtiau o wahanol feintiau yn ystod eu gwaith gwyddoniaeth.
- Yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau dysgu sylfaen, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthchweil i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau mathemateg a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn ymateb yn dda i'r cyfleoedd hyn ac yn defnyddio'u dealltwriaeth gynnar o rif yn briodol mewn tasgau dan gyfarwyddyd ac yn eu chwarae dychmygus.
- Mae disgyblion hŷn yn siarad yn hyderus am eu dysgu a sut maent yn cymhwyso'u gwybodaeth fathemategol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddefnyddio'u gwybodaeth am rifau i gwblhau heriau ymholi.

- Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn gweddu lefel yr her mewn gwersi neu weithgareddau eraill yn ddigon da i anghenion datblygiadol disgyblion. Nid ydynt bob amser yn sicrhau bod disgyblion iau yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau, fel gwerth lle, cyn cyflwyno tasgau dysgu'n annibynnol iddynt. Mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i esbonio'u hatebion a'u rhesymu.
- Mae uwch arweinwyr yn deall bod angen datblygu cyfleoedd ymhellach i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn ac i sicrhau bod disgyblion yn derbyn y lefel gywir o her yn gyson.

**Creu diwylliant a hinsawdd i hyrwyddo medrau dysgu'n annibynnol plant**

- Yn ddiweddar, mae arweinwyr a staff wedi gweithio'n ddiwyd i ddechrau meithrin ymddygiadau dysgu'n annibynnol disgyblion. Mae arweinwyr wedi datblygu cynllun ar gyfer datblygu medrau dysgu'n annibynnol disgyblion yn raddol, a'i roi ar waith. At ei gilydd, mae disgyblion yn ymateb yn dda i gyfleoedd cynyddol i gymhwyso'u medrau yn annibynnol mewn ystod eang o gyd-destunau tra byddant wrthi'n gweithio ac yn chwarae.
- Mae addysgu yn darparu lefel briodol o sgaffaldio i gefnogi dysgu. Mae hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu ystod ddefnyddiol o strategaethau. Maent yn cymhwyso'r rhain ag annibyniaeth gynyddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol, er enghraifft i'w helpu â'u gwaith ysgrifennu a mathemateg.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau ag annibyniaeth briodol wrth ymateb i heriau a osodir gan athrawon; er enghraifft, maent yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda i wneud cymariaethau rhwng y disgwyliad oes ar gyfer pobl a oedd yn byw yn oes Fictoria a phobl sy'n byw heddiw. Maent yn rhoi esboniadau rhesymegol am eu hatebion. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn cynllunio'r profiadau dysgu hyn yn ddigon gofalus i sicrhau eu bod yn adeiladu ar ddysgu blaenorol, neu'n ei ymestyn.
- Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn annibynnol i ymateb i heriau gan athrawon, er enghraifft i ymateb i gwestiynau am eu nofelau dosbarth. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynllunio'n dda ac yn herio disgyblion i ddefnyddio amrywiaeth o fedrau darllen, yn cynnwys adalw, rhagfynegi a dod i gasgliad.
- Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn deall diben adborth ysgrifenedig athrawon ac yn gwybod sut i ddefnyddio'r wybodaeth hon i wella'u gwaith ysgrifenedig.
- O oedran ifanc iawn, mae disgyblion yn defnyddio ystod o adnoddau yn llwyddiannus ac yn annibynnol i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio dyfeisiau digidol yn bwrpasol i gofnodi a chyflwyno'u gwaith.
- Caiff disgyblion ddylanwad priodol dros beth yr hoffent ddysgu amdano mewn testunau. Mae hyn yn hyrwyddo brwdfrydedd dros ddysgu a lefelau da o ymgysylltu.
- Megis dechrau gwneud dewisiadau y mae disgyblion am sut maent yn cyflwyno'u gwaith. Er enghraifft, maent yn dewis sut i gyflwyno a rhannu eu gwaith am hawliau plant.
- Mewn ychydig o achosion, yn enwedig wrth weithio gyda disgyblion iau, mae oedolion yn ymyrryd mewn dysgu ar yr adeg anghywir neu'n tarfu'n ddiangen ar ddysgu annibynnol a chydweithredol. Mae rôl oedolion fel galluogwyr dysgu mewn cyfnod datblygu cymharol gynnar.

At ei gilydd, mae’r gwaith sy’n cael ei wneud gan arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi bod yn effeithiol. Mae arweinwyr wedi gosod blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella ac wedi cefnogi tîm bodlon o staff i ddechrau gwneud cynnydd da wrth fynd i’r afael â’r nodau hyn. Mae’r gwaith hwn yn dechrau bod yn fuddiol i ddisgyblion. Mae cynlluniau priodol ar waith i adeiladu ar y llwyddiant cychwynnol hwn.

Gellir gweld adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol / UCD a mwy o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/acton-park-primary-school-cy/

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol